# Adroddiad ar Lwyfannau Rhannu Fideos (VSP) 2022

Dyddiad cyhoeddi: 20 Hydref 2022

# Cynnwys

## Adran


| | |
|---|---|
| 1. Crynodeb gweithredol | 3 |
| **Rhan A: Adroddiad Blwyddyn 1** | **6** |
| 2. Cyflwyniad i reoleiddio VSP | 7 |
| 3. Ein dull o reoleiddio VSP ym Mlwyddyn 1 | 100 |
| 4. Canfyddiadau allweddol ym Mlwyddyn 1 | 12 |
| 5. Ein blaenoriaethau strategol ym Mlwyddyn 2 | 21 |

# 1. Crynodeb gweithredol

### Ein Hadroddiad VSP cyntaf

Dyma adroddiad cyntaf Ofcom ar lwyfannau rhannu fideos (VSP) ers iddo gael ei benodi'n rheoleiddiwr statudol ar gyfer VSP a sefydlwyd yn y DU. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau allweddol o'r flwyddyn reoleiddio gyntaf, a ddechreuodd ym mis Hydref 2021 ac a ddaeth i ben ym mis Hydref 2022 (Blwyddyn 1). Mae ein canfyddiadau'n cynnwys VSP a roddodd wybod i Ofcom eu bod o fewn cwmpas y drefn. Rydym hefyd yn nodi ein strategaeth a'n meysydd ffocws ar gyfer blwyddyn nesaf y drefn (Blwyddyn 2).

### Gwnaethom symud yn gyflym i roi'r broses o reoleiddio VSP ar waith yn llawn

Ofcom yw un o'r rheoleiddwyr cyntaf yn Ewrop i roi Trefn VSP gwbl weithredol ar waith. Cafodd ein trefn ei lansio pan wnaethom gyhoeddi ein Canllawiau ar Niwed a Mesurau VSP (Canllawiau i VSP) a'n Cynllun a'n Dull Gweithredu ym mis Hydref 2021. Bryd hynny, gwnaethom nodi ein pedwar nod cyffredinol: **codi safonau, mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio, gwella tryloywder, a pharatoi'r diwydiant a ni ein hunain ar gyfer y drefn Diogelwch Ar-lein yn y dyfodol.**

Gwnaethom hefyd nodi pum blaenoriaeth strategol ar gyfer Blwyddyn 1. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar fathau penodol o niwed a mesurau diogelwch defnyddwyr, gyda'r nod cyffredinol o sicrhau bod VSP yn rhoi systemau a phrosesau ar waith i ddiogelu eu defnyddwyr rhag deunydd fideo niweidiol.

### Mae llwyfannau wedi cymryd camau i gydymffurfio â'r drefn newydd

Gwnaethom ddefnyddio ein pwerau statudol i gyflwyno ceisiadau gorfodadwy am wybodaeth i bob VSP hysbysedig. Dyma ein canfyddiadau allweddol ar gyfer Blwyddyn 1:

- **Mae pob llwyfan wedi rhoi mesurau diogelwch ar waith, gan gynnwys rheolau ynghylch pa fath o ddeunydd fideo a ganiateir.** Gwnaeth rhai llwyfannau newidiadau i'w mesurau mewn ymateb uniongyrchol i gael eu rheoleiddio o dan y Drefn VSP.
- **Ar y cyfan, ychydig o dystiolaeth a roddodd y llwyfannau i ddangos i ba raddau y mae eu mesurau diogelwch yn diogelu defnyddwyr yn effeithiol.** Mae hyn yn creu anhawster wrth benderfynu ag unrhyw sicrwydd a yw mesurau diogelwch VSP yn gweithio'n gyson ac yn effeithiol.
- **Mae angen mesurau mwy cadarn i atal plant rhag cael mynediad at bornograffi.** Nid yw mesurau rheoli mynediad rhai VSP i oedolion yn ddigon cadarn i atal plant rhag cael mynediad at bornograffi. Rydym yn disgwyl iddynt wneud cynlluniau clir i roi atebion mwy cadarn ar waith a gwneud y newidiadau hyn eleni lle bo modd.
- **Gallai rhai llwyfannau fod wedi'u paratoi'n well ar gyfer rheoleiddio.** Nid yw rhai llwyfannau wedi'u paratoi'n ddigonol ac nid oes ganddynt ddigon o adnoddau ar gyfer rheoleiddio. O hyn ymlaen, byddwn yn disgwyl i lwyfannau wella a darparu ymatebion mwy cynhwysfawr i geisiadau Ofcom am wybodaeth.

- **Nid yw llwyfannau'n blaenoriaethu prosesau asesu risg**, y mae Ofcom yn credu eu bod yn hanfodol er mwyn mynd ati'n rhagweithiol i ganfod a lliniaru risgiau i ddiogelwch defnyddwyr. Bydd yn ofynnol i bob gwasanaeth a reoleiddir gynnal asesiadau risg o dan y drefn Diogelwch Ar-lein.

### Rydym wedi sbarduno newid cadarnhaol yn ystod ein blwyddyn gyntaf

Ym Mlwyddyn 1, gwnaethom ddatblygu gwybodaeth sylfaenol gynhwysfawr am y sector VSP drwy ein rhaglen o waith ymchwil, ymgysylltu goruchwyliol a chasglu gwybodaeth. Ymhlith uchafbwyntiau'r flwyddyn mae:

- **Hysbysu**: Gwnaethom gyhoeddi ein canllawiau ynghylch a oes angen i lwyfannau ein hysbysu ac, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd 19 o VSP a sefydlwyd yn y DU wedi ein hysbysu.
- **Goruchwylio**: Mae ymgysylltu â llwyfannau mewn modd parhaus ac agored wedi ein galluogi i ddatblygu cydberthnasau rheoleiddio mwy effeithiol â'r darparwyr VSP sydd o fewn y cwmpas.
- **Casglu gwybodaeth:** Gwnaethom gyflwyno ein cylch cyntaf o geisiadau ffurfiol am wybodaeth i VSP. Mae ein gallu i gyflwyno'r ceisiadau hyn a chyhoeddi'r wybodaeth mewn adroddiadau tryloywder rheolaidd yn un o'n prif ysgogiadau ar gyfer sbarduno newid ym mhob rhan o'r diwydiant.
- **Sicrhau cydymffurfiaeth:** Rydym wedi ymgysylltu'n adeiladol â VSP hysbysedig i asesu cydymffurfiaeth, gan gynnwys ar ôl y digwyddiad erchyll yn Buffalo er mwyn deall beth ddigwyddodd a sut y cafodd eu mesurau eu rhoi ar waith. Rydym hefyd wedi ymgysylltu'n helaeth â VSP hysbysedig i gymell cydymffurfiaeth â'n ceisiadau am wybodaeth, ac wedi dechrau un ymchwiliad ffurfiol.
- **Cydweithredu rheoleiddiol**: Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â chymheiriaid rhyngwladol, yn enwedig ynghylch sicrhau oedran. Yn y pen draw, rydym yn bwriadu cydgysylltu ein dull o sicrhau oedran cyn belled ag y bo modd a sefydlu cysondeb byd-eang lle y gallwn wneud hynny – yn sgil rheoleiddio ar-lein ehangach yn y dyfodol. Rydym hefyd yn cydweithio'n agosach â rheoleiddwyr ar-lein eraill yn y DU drwy'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol.
- **Gwaith ymchwil**: Er mwyn datblygu ein sylfaen dystiolaeth ynghylch pa mor briodol yw rhai mesurau diogelu, rydym wedi gwneud neu gomisiynu gwaith ymchwil ar brofiad defnyddwyr, gan gynnwys y Traciwr VSP, Ymchwil i Ganllawiau i Rieni ar VSP, Ymchwil i Agweddau Oedolion at Gadarnhau Oedran ar Safleoedd i Oedolion, ac ymchwil deall ymddygiad i effaith diwyg VSP ar ymddygiad defnyddwyr. Ar ben hynny, fel rhan o'n dyletswydd statudol i hybu ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac ymchwilio i'r mater, rydym wedi gwneud gwaith ymchwil perthnasol er mwyn meithrin ein dealltwriaeth o niwed ar-lein ymhellach, gan gynnwys risgiau i blant.

### Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar y ffordd y mae llwyfannau'n pennu, yn gorfodi ac yn profi eu dull o ymdrin â diogelwch defnyddwyr

Ym Mlwyddyn 1, gwnaethom bennu llinell sylfaen ar gyfer y mesurau diogelu defnyddwyr sydd ar waith ar lwyfannau. Bydd ein blaenoriaethau ar gyfer Blwyddyn 2 yn edrych yn ehangach ar y ffordd y mae llwyfannau'n pennu, yn gorfodi ac yn profi eu dull o ymdrin â diogelwch defnyddwyr, gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau oedran. Yn gryno, byddwn yn ceisio:

- **Sicrhau bod VSP wedi rhoi prosesau digonol ar waith ar gyfer pennu ac adolygu telerau ac amodau cynhwysfawr (a elwir fel arfer yn Ganllawiau Cymunedol)** sy'n cwmpasu pob niwed perthnasol,

- **Cadarnhau bod VSP yn defnyddio ac yn gorfodi eu Canllawiau Cymunedol yn gyson ac yn effeithiol** er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â chynnwys niweidiol yn ymarferol,
- **Adolygu'r adnoddau y mae VSP yn eu darparu er mwyn galluogi defnyddwyr i reoli eu profiad** a hyrwyddo mwy o ymgysylltu â'r mesurau hyn,
- **Bwrw ymlaen â'r gwaith o roi trefniadau cadarn ar waith i sicrhau oedran er mwyn diogelu plant** rhag y cynnwys ar-lein mwyaf niweidiol (gan gynnwys pornograffi).

Bydd ein blaenoriaethau ar gyfer Blwyddyn 2 yn cefnogi craffu mwy manwl ar systemau a phrosesau llwyfannau. Byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'r hyn rydym wedi'i ddysgu o'n gwaith wrth ddwyn VSP i gyfrif wrth i ni baratoi i ymgymryd â'r rôl rheoleiddio ar-lein lawer ehangach a nodir yn y Bil Diogelwch Ar-lein.

### Strwythur yr adroddiad hwn

1.1 O dan ddeddfwriaeth VSP, mae gan Ofcom y pŵer i gyhoeddi adroddiadau ar y mesurau a ddefnyddir gan lwyfannau at ddibenion diogelu defnyddwyr rhag fideos sy'n cynnwys deunydd niweidiol a'r ffyrdd y bydd pob darparwr VSP yn rhoi mesurau o'r fath ar waith. [1]

1.2 Yn ystod haf 2022, gwnaethom ofyn am wybodaeth gan bob un o'r llwyfannau hysbysedig drwy ein pwerau ffurfiol i gasglu gwybodaeth sydd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth VSP. Mae'r wybodaeth a gawsom gan y llwyfannau yn sail i'r Adroddiad VSP cyntaf hwn.

1.3 Yn **Rhan A**: **Adroddiad Blwyddyn 1** rydym yn rhoi **Cyflwyniad i reoleiddio VSP** ac yn nodi ein **Canfyddiadau allweddol ym Mlwyddyn 1**[2] mewn perthynas â'n pum blaenoriaeth strategol a'n profiad cyffredinol o reoleiddio'r sector. Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth a roddwyd gan y llwyfannau i lunio **Ein blaenoriaethau strategol ym Mlwyddyn 2**.

1.4 Yn **Rhan B: Adroddiadau ar Lwyfannau**, rydym yn cyflwyno'n fanwl rywfaint o'r wybodaeth a roddwyd i ni gan y VSP am eu mesurau. Nod yr adroddiadau manwl hyn ar lwyfannau yw gwella tryloywder prosesau llwyfannau a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r mesurau y mae VSP wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu defnyddwyr rhag cynnwys niweidiol.

1.5 Yn ogystal â gwybodaeth a roddwyd gan y VSP, rydym yn cynnwys gwybodaeth a data o waith ymchwil a dadansoddi Ofcom drwy gydol yr adroddiad hwn. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig am ei bod yn cyflwyno cyd-destun y penderfyniadau a wneir gan lwyfannau ynglŷn â'u mesurau diogelu.

1.6 Ar yr un pryd, rydym yn cyhoeddi adroddiadau ar wahân gan gynnwys ein hadroddiad ar y Dirwedd ym maes VSP, y Traciwr VSP (Mawrth 2022), y gwaith ymchwil i Ganllawiau i Rieni ar VSP, a'r gwaith ymchwil i Agweddau Oedolion at Gadarnhau Oedran ar safleoedd i oedolion sy'n ategu'r ddogfen hon. Caiff gwybodaeth o'r adroddiadau hyn ei chynnwys fel sy'n briodol drwy gydol yr adroddiadau ar lwyfannau.

---

[1] Gweler adran 368Z11(1)(b) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.
[2] Dim ond 'Cyflwyniad i reoleiddio VSP', 'Canfyddiadau allweddol ym Mlwyddyn 1' a 'Rhan B' sy'n ffurfio adroddiad at ddiben adran 368Z11 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

# Rhan A: Adroddiad Blwyddyn 1

# 2. Cyflwyniad i reoleiddio VSP

## Y Drefn VSP yn gryno

### Ofcom yw rheoleiddiwr llwyfannau rhannu fideos (VSP) a sefydlwyd yn y DU

2.1 Mae'r Drefn VSP wedi'i nodi yn Rhan 4B o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf) ac mae'n deillio o Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol Ewropeaidd ddiwygiedig 2018.[3] Daeth y gofynion ar gyfer llwyfannau i rym ym mis Tachwedd 2020. Penodwyd Ofcom i reoleiddio'r sector o'r pwynt hwn ymlaen a dechreuodd ddatblygu'r fframwaith rheoleiddio a'i roi ar waith. Yn yr adroddiad hwn rydym yn cyfeirio at y fframwaith rheoleiddio a amlinellir yn Rhan 4B o'r Ddeddf fel 'y Fframwaith VSP' neu'r 'Drefn VSP'.

2.2 Mae'r gyfraith yn mynnu bod darparwyr VSP o fewn awdurdodaeth y DU yn hysbysu Ofcom am eu llwyfan. Rhaid i ddarparwyr asesu a yw eu llwyfan yn bodloni'r meini prawf cyfreithiol ar gyfer hysbysu eu hunain. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau i gynorthwyo darparwyr, sef Llwyfannau rhannu fideos: pwy sydd angen hysbysu?. Ar hyn o bryd, mae 19 o lwyfannau wedi hysbysu Ofcom eu bod yn bodloni'r meini prawf perthnasol. Ceir llawer o VSP nad ydynt o fewn y cwmpas yn y DU am nad ydynt yn bodloni'r meini prawf awdurdodaethol, ond mae'n bosibl eu bod yn cael eu rheoleiddio gan aelod-wladwriaethau'r UE.

2.3 Gwnaethom ymgynghori ag amrywiaeth eang o randdeiliaid allanol i lunio Canllawiau i VSP Ofcom. Cafodd y ddogfen hon ei chyhoeddi ym mis Hydref 2021 ochr yn ochr â'n cynllun a'n dull gweithredu ar gyfer rheoleiddio VSP ar gyfer y flwyddyn ganlynol (Blwyddyn 1).

### Rhaid i VSP ddiogelu pob defnyddiwr rhag deunydd niweidiol perthnasol, gyda mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer pobl ifanc o dan 18 oed

2.4 O dan y Drefn VSP, rhaid i ddarparwyr VSP ddiogelu pob defnyddiwr rhag gweld cynnwys fideo sy'n debygol o gymell trais neu gasineb yn erbyn grwpiau gwarchodedig, a chynnwys a fyddai'n cael ei ystyried yn drosedd o dan gyfreithiau sy'n ymwneud â therfysgaeth; cynnwys cam-drin plant yn rhywiol; a hiliaeth a senoffobia – y cyfeirir ato fel 'deunydd niweidiol perthnasol'. Rhaid iddynt hefyd ddiogelu pobl ifanc o dan 18 oed rhag fideos sy'n cynnwys deunydd R18 neu ddeunydd heb ei gategoreiddio, a deunydd arall a allai amharu ar eu datblygiad corfforol, meddyliol neu foesol ('deunydd dan gyfyngiadau').[4] Mae Ofcom yn cyfeirio at 'ddeunydd niweidiol perthnasol' a 'deunydd dan gyfyngiadau', gyda'i gilydd, fel 'deunydd niweidiol'. Rhaid i lwyfannau hefyd gynnal safonau ynghylch hysbysebu lle y caiff yr hysbysebion eu marchnata, eu gwerthu neu eu trefnu gan ddarparwr y VSP.[5]

---

[3] Cafodd y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol ddiwygiedig ei throsi i gyfraith y DU o dan reoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a gyflwynodd Ran 4B o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

[4] I gael rhagor o wybodaeth am y diffiniad o Ddeunydd dan Gyfyngiadau, gweler tudalennau 16 – 18 o'r Canllawiau i VSP (ofcom.org.uk).

[5] Gweler Guidance for providers on control of advertising (ofcom.org.uk). Byddwn yn adrodd ar y gofynion ar lwyfannau ynghylch hysbysebion mewn Adroddiad VSP diweddarach.

2.5 Yn wahanol i'n dyletswyddau rheoleiddio darlledu, nid yw rôl Ofcom o dan y Drefn VSP yn canolbwyntio ar wneud penderfyniadau ynglŷn â fideos unigol yr amheuir eu bod yn cynnwys deunydd niweidiol.[6] Yn hytrach, ein rôl yw sicrhau bod llwyfannau wedi rhoi systemau a phrosesau perthnasol ar waith sy'n diogelu eu defnyddwyr yn effeithiol rhag fideos sy'n cynnwys deunydd niweidiol. Gan na fydd presenoldeb cynnwys niweidiol yn unig bob amser yn dangos methiant systemau a phrosesau, rhaid i ni ddefnyddio ystod eang o dystiolaeth wrth asesu'r mesurau y mae llwyfannau'n eu rhoi ar waith ac wrth ystyried yr angen am unrhyw welliannau diogelwch, gan gynnwys natur y llwyfan a'r math o gynnwys sydd ar gael i ddefnyddwyr.[7]

2.6 Mae deddfwriaeth VSP yn rhestru rhai mesurau (mesurau Atodlen 15A[8]) y mae'n rhaid i ddarparwyr VSP eu rhoi ar waith, os bydd hynny'n briodol, i gyflawni eu dyletswyddau i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol, sy'n cynnwys:

- Cael telerau ac amodau ar gyfer deunydd niweidiol, a'u rhoi ar waith yn effeithiol
- Cael mecanweithiau fflagio, adrodd neu gategoreiddio, a'u rhoi ar waith yn effeithiol
- Defnyddio mesurau rheoli mynediad priodol i ddiogelu pobl ifanc dan 18 oed fel mesurau sicrhau oedran a/neu fesurau rheolaeth gan rieni
- Sefydlu prosesau cwyno hawdd eu defnyddio
- Darparu adnoddau a gwybodaeth ynghylch ymwybyddiaeth o'r cyfryngau

2.7 Mae'n ofynnol i ddarparwyr VSP benderfynu pa rai o fesurau Atodlen 15A sy'n briodol ar gyfer eu llwyfan. Mae'r Fframwaith VSP yn nodi bod mesur yn briodol i ddarparwr penodol os yw'n ymarferol ac yn gymesur i'r darparwr hwnnw ei roi ar waith, gan ystyried ffactorau gan gynnwys maint a natur ei lwyfan; y math o ddeunydd ar y llwyfan a'r niwed y gallai ei achosi; nodweddion y defnyddwyr y bydd angen eu diogelu, hawliau a buddiannau dilys defnyddwyr, ac unrhyw fesurau eraill nad ydynt yn Atodlen 15A sydd eisoes wedi'u rhoi ar waith ar y llwyfan.[9]

2.8 Gallwch ddarllen mwy am y gofynion rheoleiddio, y deunydd niweidiol sydd o fewn cwmpas y Drefn VSP, a'r mesurau y mae'n rhaid i VSP ystyried eu rhoi ar waith yn y Canllawiau i VSP.[10] Cyhoeddi'r canllawiau hyn ym mis Hydref 2021 oedd diwedd 'cyfnod gweithredu' y Drefn VSP. Felly, rydym yn cyfeirio at y cyfnod rhwng mis Hydref 2021 a chyhoeddi'r adroddiad hwn fel y flwyddyn reoleiddio lawn gyntaf, neu Flwyddyn 1. Cyfeiriwn at y cyfnod deuddeg mis yn dilyn yr adroddiad hwn fel Blwyddyn 2.

[6] Mae'r fframwaith ar gyfer hysbysebu ar VSP yn rhoi cyfrifoldebau penodol ar VSP o ran cynnwys hysbysebion. Gweler Datganiad: Rheoleiddio hysbysebu ar lwyfannau rhannu fideos (ofcom.org.uk) am ragor o fanylion.

[7] Mae'r meini prawf ymarferol a chymesur y mae'n rhaid i lwyfannau eu hystyried wrth benderfynu pa fesurau sy'n briodol hefyd yn ystyriaethau perthnasol i Ofcom. Gallwch ddarllen mwy am y meini prawf hyn yn Adran 6 o'r Canllawiau i VSP (ofcom.org.uk).

[8] Drwy gydol yr adroddiad, rydym yn cyfeirio at fesurau Atodlen 15a fel mesurau diogelu defnyddwyr, mesurau diogelwch neu, yn syml, fesurau.

[9] Gweler adran 368Z1(1) a (4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

[10] Mae gan VSP hefyd ddyletswyddau o ran hysbysebion ar ben eu dyletswyddau i ddiogelu defnyddwyr rhag fideos sy'n cynnwys deunydd niweidiol. Mae'r rhain wedi'u nodi yng Nghanllawiau Ofcom i ddarparwyr ar fesurau a niwed hysbysebion (ofcom.org.uk). Byddwn yn adrodd ar y gofynion ar lwyfannau ynghylch hysbysebion mewn Adroddiad VSP diweddarach.

### Bydd y Drefn VSP yn cael ei disodli gan y drefn Diogelwch Ar-lein yn y dyfodol

2.9 Bydd y drefn Diogelwch Ar-lein a gaiff ei chyflwyno gan y Bil Diogelwch Ar-lein yn disodli'r Drefn VSP yn y pen draw. Bydd y Llywodraeth yn nodi'r amseriad ar gyfer diddymu deddfwriaeth VSP a manylion unrhyw gyfnod pontio ar gyfer llwyfannau sydd o fewn y cwmpas. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Llywodraeth ar drefniadau pontio ac yn cyfleu'r rhain i lwyfannau cyn gynted â phosibl.

# 3. Ein dull o reoleiddio VSP ym Mlwyddyn 1

### Ein blaenoriaethau strategol ar gyfer Blwyddyn 1

3.1 Gwnaethom nodi dull gweithredu a chynllun gwaith Ofcom ar gyfer Blwyddyn 1 yn ein dogfen Cynllun a Dull Gweithredu. Gwnaethom nodi pum blaenoriaeth strategol ar gyfer Blwyddyn 1 y broses o reoleiddio VSP. Yn y meysydd hyn, y nod cyffredinol oedd sicrhau bod VSP yn rhoi mesurau priodol ar waith i ddiogelu eu defnyddwyr rhag fideos niweidiol. Ein blaenoriaethau oedd:

- **lleihau'r risg o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol (CSAM)** drwy wella prosesau cofrestru a chymedroli ar VSP i oedolion,
- **mynd i'r afael â chasineb a therfysgaeth** drwy sicrhau bod telerau ac amodau llwyfannau yn diogelu defnyddwyr yn effeithiol,
- gweithio gyda VSP sy'n boblogaidd ymhlith plant i sicrhau eu bod yn cynnig **profiad sy'n addas i'r oedran**,
- gosod sylfeini pwysig ar gyfer **cadarnhau oedran** ar VSP i oedolion,
- sicrhau bod **prosesau fflagio ac adrodd** VSP yn effeithiol, a bod VSP yn ymgysylltu'n fwy â defnyddwyr.

### Sefydlu cydberthnasau goruchwylio â VSP

3.2 Yn ystod Blwyddyn 1, gwnaethom sefydlu cydberthnasau goruchwylio adeiladol â phob un o'r llwyfannau hysbysedig er mwyn cyflawni ein pum blaenoriaeth strategol. Gwnaethom ymgysylltu ag amrywiaeth o unigolion a thimau o fewn y VSP – ar y llwyfannau llai roedd y rhain yn tueddu i fod yn Brif Swyddogion Gweithredol, ac ar lwyfannau mwy byddem fel arfer yn cwrdd â thimau Polisi neu Ymddiriedaeth a Diogelwch – er mwyn dysgu mwy am y mesurau sydd ar waith cyn anfon ceisiadau ffurfiol am wybodaeth.

3.3 Gwelsom rai llwyfannau'n gwneud newidiadau cadarnhaol i'w systemau a'u prosesau yn sgil gofynion rheoleiddio newydd ar gyfer VSP. Er enghraifft:

a) **Mae OnlyFans wedi mabwysiadu adnoddau cadarnhau oedran ar gyfer pob tanysgrifiwr newydd yn y DU.** Caiff y prif gynnyrch ei ddarparu gan Yoti, sef cwmni meddalwedd trydydd parti sy'n defnyddio technoleg amcangyfrif oedran yr wyneb, ynghyd â gwiriadau bywiolrwydd, gwrth-dwyll a dilysrwydd dogfennau i gadarnhau oedran darpar ddefnyddwyr. Caiff darpar danysgrifwyr sy'n methu gwiriadau Yoti eu cyfeirio at Ondato, sef darparwr meddalwedd sicrhau oedran trydydd parti arall.

b) **Sefydlodd TikTok Bwyllgor Goruchwylio Diogelwch Ar-lein a oedd yn seiliedig ar brosesau llywodraethu diogelu data a oedd eisoes yn bodoli.** Mae'r Pwyllgor yn 'goruchwylio cydymffurfiaeth â gofynion o ran cynnwys a diogelwch mewn modd gweithredol'[11] a hynny'n benodol o fewn rhanbarth y DU a'r UE. Mae'r Pwyllgor yn

[11] Addasiad o ddyfyniad o ymateb TikTok i'r cais ffurfiol am wybodaeth a gyflwynwyd yn ystod haf 2022.

cynnwys y Pennaeth Ymddiriedaeth a Diogelwch Byd-eang, Rheolwr Cyffredinol y DU a’r UE, a'r Cyfarwyddwr Materion Cyfreithiol a Chorfforaethol.

c) **Mae Vimeo bellach ond yn caniatáu i ddeunydd ar gyfer ‘pob cynulleidfa’ fod yn weladwy i ddefnyddwyr heb gyfrif.** Caiff cynnwys sydd wedi’i gategoreiddio'n ‘aeddfed’ neu ‘heb ei gategoreiddio’ ei roi y tu ôl i’r sgrin mewngofnodi yn awtomatig bellach.

d) **Mae llwyfannau wedi cyflwyno amrywiaeth o fesurau diogelwch eraill, gan gynnwys ‘Family Center’ Snap.** Yn ddiweddar, lansiodd Snapchat ei nodwedd rheolaeth gan rieni, sef ‘Family Center’, sy’n galluogi rhieni a gwarcheidwaid i weld rhestr o sgyrsiau eu plentyn heb weld cynnwys y negeseuon hynny. Gall rhieni a gwarcheidwaid hefyd weld pwy mae eu plentyn yn ffrindiau â nhw ar y gwasanaeth gan eu bod yn cael gweld rhestr o'u ffrindiau diweddaraf.

3.4 Rydym hefyd wedi gweithio gyda VSP i ddeall pa lwyfannau sydd o fewn cwmpas y Drefn VSP, gan gynnwys cefnogi llwyfannau drwy’r broses. Penderfynodd dau VSP bach i oedolion gau’r adrannau rhannu fideos ar eu safleoedd ar ôl i’w darparwr ddod i’r casgliad na fyddent yn gallu cydymffurfio â disgwyliadau Ofcom o ran cadarnhau oedran. Gwnaeth VSP arall, sef Brand New Tube, ein hysbysu ym mis Hydref 2022 ar ôl cyfnod o ymgysylltu agos.

### Casglu gwybodaeth gan VSP

3.5 Yn ystod haf 2022, gwnaethom anfon ceisiadau am wybodaeth at VSP gan ddefnyddio ein pwerau rheoleiddio ffurfiol sydd wedi’u nodi mewn deddfwriaeth VSP. Mae gan Ofcom y pŵer i ddefnyddio gwybodaeth y gofynnir amdani gan lwyfannau at ddibenion paratoi Adroddiad VSP.[12] Mae’n ofynnol yn ôl y gyfraith i lwyfannau ymateb i bob cais am wybodaeth yn llawn, yn gywir ac yn brydlon. Os na wnânt hynny, mae gennym y pŵer i gymryd camau gorfodi.

3.6 Roedd y wybodaeth y gwnaethom ofyn amdani gan lwyfannau yn cyd-fynd â’n pum blaenoriaeth strategol ar gyfer Blwyddyn 1. Fodd bynnag, gan fod y a reoleiddir gennym yn amrywio’n fawr o ran maint a natur, ni wnaethom ofyn am yr un faint o wybodaeth gan bob llwyfan.

3.7 Yn ystod y broses o gasglu gwybodaeth, gwnaethom ymgysylltu â sawl VSP ynghylch ymatebion gwybodaeth a allai fod yn anghyflawn ac wedi’u gohirio. Ar y cyfan, arweiniodd hyn at ymgysylltu cadarnhaol, a chyflwynodd y llwyfannau'r wybodaeth angenrheidiol.

3.8 Fodd bynnag, ar 29 Medi 2022 gwnaethom ddechrau cynnal ymchwiliad i weld a oedd Tapnet Ltd, a oedd yn masnachu dan yr enw RevealMe, wedi methu â chydymffurfio â’i ddyletswyddau i gydymffurfio â chais ffurfiol am wybodaeth.[13] Er bod Tapnet Ltd wedi cyflwyno ei ymateb ar ôl i’r ymchwiliad ddechrau, mae hyn wedi effeithio ar ein gallu i wneud sylwadau ar fesurau diogelu RevealMe yn yr adroddiad hwn.

---

[12] Gweler adran 368Z10(3)(h) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.
[13] Investigation into Tapnet’s compliance with a statutory information request (ofcom.org,uk)

# 4. Canfyddiadau allweddol ym Mlwyddyn 1

### Crynhoi'r hyn rydym wedi'i ddysgu o Flwyddyn 1

**Mae pob llwyfan wedi rhoi mesurau diogelwch ar waith, gan gynnwys rheolau ynghylch pa fath o ddeunydd fideo a ganiateir.** Gwnaeth rhai llwyfannau newidiadau i'w mesurau mewn ymateb uniongyrchol i gael eu rheoleiddio o dan y Drefn VSP.

**Ar y cyfan, ychydig o dystiolaeth a roddodd VSP i ddangos i ba raddau y mae eu mesurau diogelwch yn diogelu defnyddwyr yn effeithiol.** Felly, mae hyn yn creu anhawster i Ofcom wrth benderfynu ag unrhyw sicrwydd a yw mesurau diogelwch VSP yn gweithio'n gyson ac yn effeithiol.

**Mae angen mesurau mwy cadarn i atal plant rhag cael mynediad at bornograffi.** Rydym wedi parhau i ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth ar effeithiolrwydd mesurau sicrhau oedran. Ar sail ein dadansoddiad hyd yma, rydym yn credu efallai nad yw mesurau rheoli mynediad rhai VSP i oedolion yn ddigon cadarn i atal plant rhag cael mynediad at bornograffi – ac rydym yn disgwyl gweld gwelliannau.

**Gallai rhai VSP fod wedi'u paratoi'n well ar gyfer rheoleiddio.** Nid yw rhai llwyfannau, gan gynnwys rhai o bob maint, wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer rheoleiddio ac nid oes ganddynt ddigon o adnoddau ar gyfer rheoleiddio. Mae Ofcom yn gweithio gyda llwyfannau i wella eu parodrwydd ar gyfer rheoleiddio a bydd yn sefydlu tîm goruchwylio pwrpasol i gefnogi'r gwaith hwn. O hyn ymlaen, byddwn yn disgwyl i lwyfannau wella a darparu ymatebion mwy cadarn a phrydlon i geisiadau Ofcom am wybodaeth, a'n rhoi mewn cysylltiad â'r timau arbenigol priodol pan fo angen.

**Nid yw llwyfannau'n blaenoriaethu prosesau asesu risg**, y mae Ofcom yn credu eu bod yn hanfodol er mwyn mynd ati'n rhagweithiol i ganfod a lliniaru risgiau i ddiogelwch defnyddwyr. Bydd yn ofynnol i bob gwasanaeth a reoleiddir gynnal asesiadau risg o dan y drefn Diogelwch Ar-lein.

## Cynnydd o ran cyflawni ein pum blaenoriaeth strategol

4.1 Fel yr esboniwyd ym mharagraff 3.1 uchod, ym mis Hydref 2021 gwnaethom nodi ein meysydd blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi llywio ein gwaith, drwy ymchwil, ymgysylltu, a'r ffordd y gwnaethom strwythuro ein ceisiadau am wybodaeth i'r llwyfannau. Rydym yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni blaenoriaethau isod.

### Lleihau'r risg o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol (CSAM)[14]

4.2 Mae cynnwys wedi'i hunangynhyrchu yn cyfrif mwy a mwy am ddelweddau a fideos cam-drin plant. Yn ôl yr Internet Watch Foundation (IWF), bu cynnydd o 163% drwy'r rhyngrwyd

[14] Mae CSAM yn cynnwys unrhyw ddeunydd sy'n dangos plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol. O dan y Fframwaith VSP, mae'r diffiniad o CSAM yn cynnwys dangos unrhyw berson y mae'n ymddangos mai plentyn ydyw, yn ogystal â delweddau realistig o CSAM (fel cynnwys a gynhyrchwyd gan ddefnyddio cyfrifiadur) a gweithgarwch ffug.

mewn hunangynhyrchu CSAM yn 2021 o gymharu â 2020; [15] a chynnydd o 360% mewn hunangynhyrchu CSAM sy'n dangos plant rhwng 7 a 10 oed yn ystod hanner cyntaf 2022[16] o gymharu â'r un cyfnod yn 2021.

4.3 Mae ein Canllawiau i VSP yn nodi gofyniad clir bod cael telerau ac amodau i atal CSAM, a'u rhoi ar waith yn effeithiol, yn hollbwysig er mwyn diogelu defnyddwyr a chydymffurfio â'r Drefn VSP. Mae risg uwch yn gysylltiedig â VSP i oedolion o ran lanlwytho'r deunydd hwn, ac felly ein man cychwyn ar gyfer mynd i'r afael â CSAM oedd canolbwyntio ar y mesurau diogelu y mae VSP i oedolion wedi'u rhoi ar waith, gan gynnwys prosesau cofrestru a chynefino a phroses gyflym i ddefnyddwyr roi gwybod am CSAM.

4.4 Er mwyn adeiladu ar ein gofyniad bod angen i lwyfannau gael mesurau i atal CSAM a'u rhoi ar waith yn effeithiol, rydym wedi cynnal rhaglen ymgysylltu – gan gynnwys ymgysylltu â chyrff anllywodraethol a chymdeithas sifil – i ddeall prif ysgogwyr niwed sy'n gysylltiedig â CSAM, a beth yw'r mesurau lliniaru mwyaf effeithiol yn y gofod ar-lein. Rydym wedi ymgysylltu â VSP i oedolion er mwyn deall y camau y maent yn eu cymryd i ddiogelu eu defnyddwyr rhag CSAM.

### Mae pob un o'r VSP i oedolion a ymatebodd wedi rhoi rhai mesurau ar waith i atal CSAM

4.5 Gofynnodd Ofcom am wybodaeth am CSAM gan chwech o'r VSP hysbysedig i oedolion: OnlyFans, AdmireMe, FanzWorld, PocketStars, RevealMe, ac Xpanded.

4.6 Er y caiff asesiad pellach ei gynnal er mwyn cadarnhau'r wybodaeth a gawsom, rydym wedi dod i'r casgliadau canlynol ynglŷn â'r holl VSP hysbysedig i oedolion a ymatebodd i ni:

- maent wedi rhoi rheolau defnyddwyr ar waith er mwyn gwahardd lanlwytho deunydd anghyfreithlon, gan gynnwys CSAM. Mae'r rheolau hyn yn cynnwys sancsiynau clir i ddefnyddwyr sy'n eu torri;
- maent wedi rhoi prosesau cofrestru a chynefino creawdwyr ar waith sy'n ceisio atal defnyddwyr rhag lanlwytho CSAM, ac mae'n ymddangos i Ofcom eu bod yn ddigonol, er nad yw eu heffeithiolrwydd wedi cael ei asesu;
- maent wedi rhoi rhai dulliau adrodd a chymedroli ar waith, gan gynnwys blaenoriaethu adroddiadau gan ddefnyddwyr sy'n ymwneud â CSAM. Yr hyn sy'n nodedig yma yw'r ffaith bod yr holl VSP i oedolion yn defnyddio rhyw fath o gymedroli rhagweithiol[17] ar eu llwyfannau;
- mae ganddynt fwy o waith i'w wneud o ran y ffordd y maent yn asesu effeithiolrwydd eu mesurau ac yn dangos tystiolaeth o hynny.

[15] The Annual Report 2021 (iwf.org.uk). Mae'r tudalennau gwe a gafodd eu hasesu gan yr IWF yn deillio o adroddiadau a chwilio rhagweithiol; efallai nad yw'r data'n adlewyrchu'r deunydd sydd i'w weld ar y VSP i oedolion a drafodir yn yr adroddiad hwn yn llwyr gan fod y deunydd y tu ôl i wal dalu.

[16] 20,000 reports of coerced 'self-generated' sexual abuse imagery seen in first half of 2022 show 7- to 10-year-olds (IWF,org,uk)

[17] Mae 'cymedroli rhagweithiol' yn cyfeirio at y mesurau y mae llwyfannau yn eu rhoi ar waith i fonitro cynnwys ar-lein, gan gynnwys drwy dechnolegau sganio, er mwyn canfod achosion o dorri eu telerau ac amodau ynghylch diogelu. Ar y cyfan, caiff y mesurau hyn eu rhoi ar waith ochr yn ochr â mewnbynnau o adnoddau adrodd gan ddefnyddwyr. Nid yw cymedroli rhagweithiol yn ofynnol o dan y Drefn VSP ac felly nid yw'n rhan o'r gwaith hwn ond, serch hynny, mae o ddiddordeb i Ofcom.

4.7 Mae rhagor o fanylion am y mesurau hyn a'r ffordd y mae'n ymddangos eu bod yn lleihau'r risg o CSAM i'w gweld yn y penodau ar OnlyFans a VSP llai i oedolion yn **Rhan B** o'n hadroddiad.

## Trechu casineb a therfysgaeth

4.8 Canfu ein gwaith ymchwil yn 2022 fod 24% o ddefnyddwyr VSP wedi dweud eu bod wedi dod ar draws fideos roeddent o'r farn eu bod yn fideos treisgar, camdriniol neu amhriodol yn ystod y tri mis diwethaf.[18] Mae ein Canllawiau i VSP yn nodi disgwyliad clir bod cael telerau ac amodau sy'n gwahardd lanlwytho deunydd niweidiol perthnasol, a'u rhoi ar waith yn effeithiol, yn rhan annatod o gydymffurfio. Mae hyn yn cynnwys fideos a fyddai'n gyfystyr â throsedd o dan ddeddfau sy'n ymwneud â therfysgaeth, hiliaeth a senoffobia, yn ogystal â deunydd sy'n debygol o gymell trais neu gasineb.

4.9 Ein nodau o dan y flaenoriaeth hon oedd sicrhau bod telerau ac amodau llwyfannau yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol, a deall sut y cânt eu cyfleu i ddefnyddwyr.

4.10 Yn ystod Blwyddyn 1, gwnaethom ymgysylltu â VSP – a rhanddeiliaid perthnasol eraill – er mwyn deall meysydd posibl i'w gwella yn ogystal ag arferion da nodedig.

4.11 Ar 12 Hydref 2022, gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar yr achos o saethu yn Buffalo, Efrog Newydd, ym mis Mai 2022 a gafodd ei ffrydio'n fyw i ddechrau ar Twitch, sy'n VSP hysbysedig, ac yna ei rannu ar lwyfannau eraill. Roedd yr adroddiad yn nodi ein canfyddiadau ynghylch y rôl y mae llwyfannau'n ei chwarae o ran hwyluso ac atal lledaeniad cyflym deunydd sy'n ymwneud â therfysgaeth yn dilyn ymosodiadau o'r fath.

### Mae'r telerau ac amodau yn ddigonol ar y cyfan, er bod rhywfaint o le i wella

4.12 Yn gyffredinol, mae gan y VSP hysbysedig delerau ac amodau digonol (a elwir weithiau'n Ganllawiau Cymunedol) sy'n gwahardd deunydd a fyddai o fewn cwmpas deddfau sy'n ymwneud â therfysgaeth, hiliaeth a senoffobia, yn ogystal â deunydd sy'n debygol o gymell trais neu gasineb (cynnwys rydym yn cyfeirio ato gyda'i gilydd fel 'cynnwys casineb a therfysgaeth'). Gwelsom fod gan lwyfannau, i raddau helaeth, amrywiaeth o brosesau digonol ar gyfer diweddaru'r rhain yn ôl yr angen.

4.13 Fodd bynnag, mae gan rai llwyfannau le i wella o ran yr hyn sydd wedi'i wahardd yn eu telerau ac amodau a'r ffordd y maent yn cyfleu'r rheolau hyn i ddefnyddwyr (e.e. cyfleu Telerau ac Amodau yn ystod y broses gofrestru, yn ystod y broses lanlwytho, ar ôl torri rheolau ac ati). Gwelsom fod telerau ac amodau rhai VSP yn ddwys ac yn anodd eu dilyn ac, mewn rhai achosion, nad oes angen i ddefnyddwyr agor y telerau ac amodau er mwyn gwylio cynnwys.

4.14 Yn gyffredinol, mae VSP yn defnyddio gwahanol fathau o sancsiynau, fel dileu cynnwys neu atal cyfrif defnyddiwr, pan gaiff y telerau ac amodau hyn eu torri. Mae esboniadau o sancsiynau a phrosesau apelio hefyd yn faes lle y gall llwyfannau wella. Er enghraifft,

[18] Ofcom VSP tracker Wave 2 (ofcom.org.uk) (Mawrth 2022), Ch3a

credwn y dylai rhai VSP adolygu cynnwys y rhoddwyd gwybod amdano yn gyflymach, ac mae proses apelio VSP eraill yn ddiangen o aneglur.

4.15 Yn olaf, fel mewn meysydd eraill, mae angen i ni ddeall yn well a yw telerau ac amodau ynghylch cynnwys casineb a therfysgaeth yn cael eu gorfodi'n gyson ac yn effeithiol. Byddwn yn trafod hyn ymhellach ym Mlwyddyn 2.

## Mesurau diogelu ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed

4.16 Y llynedd, dangosodd ein gwaith ymchwil i VSP fod 79% o bobl ifanc rhwng 13 a 17 oed sy'n defnyddio VSP wedi dweud eu bod wedi profi niwed ar VSP yn ystod y tri mis diwethaf.[19] Hefyd, roedd defnyddwyr yn y grŵp oedran hwn yn fwy tebygol o lawer nag oedolion sy'n defnyddio VSP o ddweud eu bod wedi gweld cynnwys ar-lein a oedd yn niweidiol yn eu barn nhw, gan gynnwys delwedd negyddol o'r corff a chynnwys sy'n ymwneud ag anhwylderau bwyta, cynnwys sy'n glamoreiddio ffyrdd afiach neu gamdriniol o fyw, a hyrwyddo hunan-niwed.[20] Mae llawer mwy i'w wneud i sicrhau y caiff pobl ifanc o dan 18 oed eu diogelu'n briodol ar-lein.

4.17 Ym Mlwyddyn 1, gwnaethom nodi'n glir bod angen i lwyfannau deilwra eu hymdrechion i ddiogelu mewn ffordd sy'n sicrhau profiad priodol i'r oedran i'w holl ddefnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod defnyddwyr o bob oedran yn gallu deall mesurau diogelwch ac ymgysylltu â nhw, a hybu ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Ein prif nod ar gyfer y flaenoriaeth hon oedd gallu adrodd yn fanwl ar y mesurau y mae VSP wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu pobl ifanc o dan 18 oed a sicrhau bod cynnwys yn briodol i'w hoedran – gan wella tryloywder ar draws llwyfannau ar gyfer defnyddwyr, rhieni a gofalwyr.

4.18 Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar ddeall y mesurau diogelwch sydd ar gael i blant a'u teuluoedd. Mae hyn wedi cynnwys gwaith ymchwil gyda rhieni a gofalwyr i ddeall sut maent yn ymgysylltu â chanllawiau a mesurau diogelwch plant.[21] Rydym hefyd wedi ymgysylltu â grwpiau cymdeithas sifil, gan gynnwys cynnal trafodaeth bwrdd crwn i gael gwell dealltwriaeth o brofiadau plant o VSP a mesurau diogelwch perthnasol.

### Mae angen gwneud mwy o waith er mwyn cynnig profiadau i bobl ifanc dan 18 oed sy'n briodol i'w hoedran

4.19 Mae VSP ar gam cynnar yn y broses o gynnig profiadau sy'n briodol i'r oedran ac nid ydynt yn tueddu i wahaniaethu rhwng grwpiau oedran. Dim ond ystyried a yw defnyddiwr dros yr isafswm oedran gofynnol (neu 18+ oed) y bydd y rhan fwyaf o lwyfannau yn ei wneud. Ar hyn o bryd, dim ond dau o'r VSP (TikTok a The Sponsor Hub) sy'n gwahaniaethu rhwng

---

[19] Ofcom, Arolwg o'r defnydd o lwyfannau rhannu fideos a phrofiad o niwed 2021 (ofcom.org.uk) Nid yw'r mathau canfyddedig hyn o niwed o reidrwydd yn cyd-fynd â'r diffiniad o ddeunydd niweidiol perthnasol o dan y Drefn VSP. Hyd yn oed pan allai'r mathau hyn o niwed fod yn ddeunydd sy'n debygol o achosi niwed i ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol pobl ifanc dan 18 oed, gall fod yn anodd cadarnhau hyn heb asesu darnau unigol o gynnwys.

[20] Ofcom, Arolwg o'r defnydd o lwyfannau rhannu fideos a phrofiad o niwed 2021 (ofcom.org.uk).

[21] Ymchwil i Ganllawiau i Rieni ar VSP (ofcom.org.uk)

gwahanol grwpiau oedran er mwyn addasu natur y cynnwys a’r nodweddion y gall defnyddwyr iau eu defnyddio.

4.20 Mae rhai llwyfannau wedi cyflwyno rheolaethau rhieni newydd sy’n grymuso rhieni i reoli profiadau ar-lein eu plant. Er enghraifft, mae nodwedd ‘Family Pairing’ TikTok yn caniatáu i rieni gyfyngu ar y gallu i weld cynnwys sydd â hysbysiad rhybuddio drwy ddefnyddio'r ‘Restricted Mode’. Mae ‘Family Center’ Snapchat yn rhoi mwy o dryloywder i rieni mewn perthynas â sgyrsiau a ffrindiau eu plentyn.

4.21 Hefyd, mae gan lwyfannau ffyrdd amrywiol o roi gwybod i ddefnyddwyr y gall cynnwys fod yn amhriodol i ddefnyddwyr ifanc. Mae Twitch yn galluogi ffrydwyr i dagio eu sianeli fel rhai aeddfed os nad yw eu cynnwys wedi’i fwriadu ar gyfer cynulleidfaoedd iau. Mae TikTok yn categoreiddio cynnwys a all fod yn anaddas i ddefnyddwyr iau, gan roi gwybod i bobl ifanc o dan 18 oed nad oes modd gweld y cynnwys hwn am ei fod yn ‘warchodedig oherwydd oedran’.

4.22 Mae rhai darparwyr wedi gwneud newidiadau i ddiwyg eu llwyfan yn ystod eu cyfnod o ymgysylltu ag Ofcom. Er enghraifft, mae Vimeo bellach ond yn caniatáu i ddeunydd ar gyfer ‘pob cynulleidfa’ fod yn weladwy i ddefnyddwyr heb gyfrif. Rhaid i ddefnyddwyr fewngofnodi i gyfrif i weld cynnwys heb ei gategoreiddio a chynnwys aeddfed. Hefyd, gall defnyddwyr sydd â chyfrif ddewis hidlo cynnwys heb ei gategoreiddio neu gynnwys aeddfed o’u canlyniadau chwilio.

4.23 Ym Mlwyddyn 2, byddwn yn sbarduno rhagor o newid yn y maes pwysig hwn. Byddwn yn canolbwyntio’n benodol ar y mathau o gynnwys a all fod yn arbennig o niweidiol i blant, gan gynnwys deunydd sy'n ymwneud â hunan-niwed a hunanladdiad. Byddwn yn gweithio gyda llwyfannau i ystyried i ba raddau y mae’r adnoddau hyn yn diogelu pobl ifanc o dan 18 oed yn effeithiol ac yn chwilio am welliannau sylweddol.

## Cadarnhau oedran ar VSP i oedolion

### Gwnaethom ddweud y byddwn yn parhau i osod sylfeini pwysig ar gyfer cadarnhau oedran ar VSP i oedolion

4.24 Rydym yn ystyried bod VSP sy’n arbenigo mewn deunydd pornograffig yn ‘VSP i oedolion’. Yn ein Canllawiau i VSP, rydym yn rhestru nifer o ddangosyddion y gallem eu hystyried wrth asesu a oes angen i lwyfan roi mesurau ar waith i ddiogelu pobl ifanc o dan 18 oed rhag deunydd pornograffig. Mae’r rhain yn cynnwys faint o bornograffi sydd ar y llwyfan, arwyddocâd pornograffi i’r llwyfan, a safle’r llwyfan ar y farchnad.

4.25 Gosod sylfeini ar gyfer cadarnhau oedran er mwyn atal pobl ifanc o dan 18 oed rhag cael mynediad at ddeunydd pornograffig ar VSP i oedolion oedd un o’n blaenoriaethau ar gyfer Blwyddyn 1.

4.26 Fel rhan o’r gwaith o osod y sylfeini hyn, comisiynodd Ofcom ymchwil i agweddau defnyddwyr at gadarnhau oedran. Mae’r canfyddiadau allweddol wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â’r adroddiad hwn ac maent wedi’u crynhoi yn yr adran **Cyflwyniad i Lwyfannau i Oedolion** yn Rhan B. Canfu’r ymchwil, er bod y cyfranogwyr yn gefnogol o

ddulliau cadarnhau oedran sy’n cael eu defnyddio i ddiogelu pobl ifanc o dan 18 oed rhag niwed ar y cyfan, fod y risg o niwed sy'n gysylltiedig â phornograffi yn llai amlwg nag ydyw mewn gweithgareddau eraill, fel gamblo ar-lein. Roedd cyfranogwyr yn teimlo’n fwy parod i gadarnhau eu hoedran i gael mynediad at bornograffi wrth greu cyfrif neu danysgrifio i gynnwys.[22]

4.27 Rydym wedi ymgysylltu â darparwyr dulliau sicrhau oedran i feithrin ein dealltwriaeth o’r hyn y gall technoleg ei gyflawni ar hyn o bryd, a thueddiadau'r dyfodol yn y maes hwn. Rydym yn bwriadu parhau â’r gwaith ymgysylltu hwn a dyfnhau ein dealltwriaeth o’r farchnad hon, gan gynnwys datblygu safonau technegol ar gyfer sicrhau oedran. Rydym yn cydnabod yr angen am gynnydd cyffredinol yn y maes hwn.

4.28 Rydym hefyd wedi ymgysylltu’n rheolaidd â’n cymheiriaid rhyngwladol drwy’r Gweithgor Rhyngwladol ar Gadarnhau Oedran, yn ogystal â Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth i sicrhau bod dulliau cadarnhau oedran yn diogelu preifatrwydd y defnyddiwr.

### Mae OnlyFans wedi mabwysiadu dull cadarnhau oedran, ond mae gan VSP llai i oedolion ragor i’w wneud

4.29 Mae OnlyFans, sef y mwyaf o’r VSP i oedolion, wedi rhoi Yoti, sef dull sicrhau oedran, ar waith ar gyfer pob defnyddiwr newydd yn y DU gan ddilyn y gofynion rheoleiddio ar gyfer VSP. Mae Ofcom yn falch o weld darparwr VSP yn cymryd camau i weithredu prosesau cadarnhau oedran sy'n ymddangos yn fwy cadarn na’r dulliau hunanddatgan dyddiad geni traddodiadol a llawer mwy cyffredin.

4.30 Mewn cyferbyniad â hynny, nid oedd y wybodaeth a gafwyd gan y VSP llai i oedolion yn rhoi hyder i ni fod ganddynt fesurau rheoli mynediad cadarn ar waith i atal plant rhag cael mynediad at bornograffi. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â’r llwyfannau hyn yn ystod Blwyddyn 2 er mwyn bwrw ymlaen â’r gwaith o roi dulliau cadarnhau oedran ar waith.

## Adrodd a fflagio

4.31 Yn ein Canllawiau i VSP, gwnaethom amlinellu ein bod o'r farn bod dulliau adrodd a fflagio yn hanfodol i ddiogelu defnyddwyr ac y dylai’r dulliau hyn fod yn hawdd eu defnyddio. Ar ben hynny, dylai’r camau a gymerir mewn ymateb i adroddiadau neu fflagiau fod yn glir, yn dryloyw, yn amserol ac yn gymesur â maint, natur a phroffil risg y llwyfan.

4.32 Adnodd i ddefnyddwyr a sefydliadau trydydd parti roi gwybod i lwyfannau am gynnwys sy’n torri telerau ac amodau llwyfan o bosibl yw adrodd a fflagio. Gall fod yn adnodd i ddefnyddwyr gymryd rheolaeth dros eu profiadau ar-lein, ac yn ffordd i lwyfannau ganfod darn o gynnwys neu gyfrif a gweithredu arno o bosibl. Fel y cyfryw, mae cysylltiad agos rhwng adrodd a fflagio ac amrywiol fesurau diogelu eraill.

4.33 Yn aml, mae’n bosibl mai adnoddau adrodd a fflagio fydd y cyfle olaf i ganfod cynnwys niweidiol neu amhriodol na chaiff ei ganfod drwy ddulliau eraill, fel dosbarthwyr awtomataidd. Hyd yn oed wrth i adnoddau algorithmig wella, gall adrodd gan ddefnyddwyr

[22] Gwaith ymchwil Ofcom i agweddau oedolion at gadarnhau oedran ar wefannau i oedolion, 2022

barhau i fod yn fesur diogelu pwysig i rai llwyfannau. Ar adegau, gall adrodd gan ddefnyddwyr fod yn fwy manwl gywir o ran canfod cynnwys lle mae angen cyd-destun ychwanegol neu sy'n cynnwys awgrym (e.e. hiwmor, dychan, neu honiadau ymhlyg).

4.34 Gan fod dulliau adrodd a fflagio yn galluogi llwyfannau i ganfod cynnwys niweidiol yn ogystal â grymuso defnyddwyr unigol, mae ein blaenoriaethau ar gyfer Blwyddyn 1 wedi canolbwyntio ar ddeall pa lwyfannau sydd wedi rhoi'r adnoddau hyn ar waith, sut y cawsant eu rhoi ar waith, a sut y gellir eu gwella. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ymchwil, ymgysylltu â llwyfannau, gwrando ar farn a phrofiadau sefydliadau cymdeithas sifil, a chynnal arbrofion ar-lein ar nodweddion adrodd er mwyn deall ymddygiad. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd adrodd gan ddefnyddwyr a sut i wneud hynny, gwnaethom gynnal ymgyrch ar adrodd a fflagio ar sawl llwyfan cyfryngau cymdeithasol.[23] Y nod oedd pwysleisio yn uniongyrchol i ddefnyddwyr iau, os byddant yn gweld cynnwys fideo sy'n ymddangos yn niweidiol, y dylent roi gwybod i lwyfannau, yn ogystal â rhoi gwybod iddynt sut y gallant wneud hyn.

### Mae dulliau adrodd a fflagio ar waith ar bob VSP hysbysedig, ond ceir amrywiaeth o ran y ffordd y cânt eu defnyddio a'u gweithredu

4.35 Gwelsom fod adrodd a fflagio yn arfer safonol ym mhob rhan o'r diwydiant; mae pob un o'r llwyfannau sydd wedi ein hysbysu ar hyn o bryd wedi rhoi dulliau adrodd a fflagio ar waith. Fodd bynnag, mae'r ffordd y cânt eu gweithredu'n amrywio'n fawr. Hefyd, ceir amrywiaeth o ran pa mor greiddiol ydynt i brosesau canfod a gorfodi llwyfannau, gyda rhai llwyfannau'n dibynnu'n fwy o lawer ar adnoddau awtomataidd ar gyfer mynd ati mewn modd rhagweithiol i dynnu neu ganfod cynnwys sy'n torri eu telerau ac amodau.

4.36 Mae hyn yn golygu bod gan Ofcom fwy i'w ystyried er mwyn deall i ba raddau y caiff cynnwys niweidiol ei adnabod yn effeithiol a pha mor effeithiol yw'r camau a gymerir mewn ymateb i hynny drwy systemau fflagio ac adrodd gan ddefnyddwyr. Rydym wedi gwneud gwaith ymchwil i'r ffyrdd y mae diwyg dulliau adrodd a fflagio yn effeithio ar ymddygiad defnyddwyr. Gwnaed amrywiol newidiadau i ddiwyg rhyngwyneb defnyddiwr porth gwylio fideos ar-lein generig. Mae'r canlyniadau'n rhoi tystiolaeth ar gyfer defnyddio adnoddau adrodd sy'n fwy amlwg yn weledol er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd defnyddwyr VSP yn rhoi gwybod am fideos a allai fod yn niweidiol.

4.37 Ar ben hynny, mae gan y rhan fwyaf o VSP mawr ryw fath o raglen 'fflagiwr dibynadwy' allanol lle mae llwyfannau'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau (fel cymdeithas sifil, asiantaethau'r llywodraeth, neu grwpiau perthnasol eraill) sydd ag arbenigedd penodol ym maes niwed ar-lein. Gall y 'fflagwyr dibynadwy' hyn dynnu sylw'r llwyfannau yn uniongyrchol at gynnwys a allai fod yn erbyn y rheolau, a bydd y llwyfannau wedyn yn rhoi blaenoriaeth i edrych ar yr adroddiadau hynny.  Fodd bynnag, nid oes arferion gorau y cytunwyd arnynt yn y diwydiant ar gyfer rhaglenni fflagiwr dibynadwy. O hyn ymlaen, byddwn yn gweithio gyda llwyfannau i ddeall yn well sut mae'r rhaglenni hyn yn gweithio, pwy sy'n gymwys i fod yn fflagiwr dibynadwy, a sut y caiff adroddiadau eu blaenoriaethu.

[23] Cynhaliwyd yr ymgyrch ar TikTok ac Instagram.

## Gwersi ychwanegol a ddysgwyd o reoleiddio VSP ym Mlwyddyn 1

### Mae angen i lwyfannau baratoi eu hunain yn well i ymgysylltu â’r broses reoleiddio

4.38 Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld amrywiad mawr o ran parodrwydd llwyfannau i ymgysylltu ag Ofcom. Nid oedd cydberthynas rhwng yr amrywiad hwn a maint cronfa defnyddwyr na refeniw’r llwyfannau, ac roedd yn arbennig o amlwg yn y ffordd yr ymatebodd gwahanol ddarparwyr i’n ceisiadau am wybodaeth. Roedd rhai llwyfannau’n gwbl ymatebol yn y wybodaeth a roddwyd ganddynt, ac roedd yr ymatebion cychwynnol gan eraill yn llai boddhaol. Rydym yn ymwybodol o’r angen i fod yn gymesur a pheidio â rhoi gormod o faich ar gwmnïau a reoleiddir. Fodd bynnag, rydym wedi nodi’n glir ein bod yn disgwyl ymgysylltu gwell gan lwyfannau a reoleiddir – o bob maint – ac na fyddwn yn oedi cyn gweithredu pan fydd gennym bryderon nad yw darparwr yn cyflawni ei ddyletswydd i gydweithredu â’r rheoleiddiwr.

4.39 Mae angen i VSP sicrhau bod ganddynt adnoddau priodol i ymgysylltu â’r broses reoleiddio, boed drwy sicrhau eu bod yn cynnwys y staff cywir mewn cyfarfodydd ag Ofcom neu’n ymateb i geisiadau am wybodaeth yn llawn ac erbyn y terfyn amser cywir. Mewn rhai achosion, bydd angen i lwyfannau geisio arweiniad cyfreithiol priodol wrth ymgysylltu â phrosesau rheoleiddio. Mae cyfathrebu agored a rhagweithiol rhwng y llwyfan a’r rheoleiddiwr yn arwain at ymgysylltu mwy adeiladol. Rydym yn disgwyl gweld y llwyfannau a reoleiddir gennym o dan y Drefn VSP yn aeddfedu yn y ffordd y byddant yn ymwneud â ni yn ystod y flwyddyn nesaf – gan deilwra’r disgwyliad hwn mewn ffordd sy’n gymesur â maint a lefel risg pob llwyfan.

4.40 Gwelsom hefyd nad oedd y rhan fwyaf o VSP, ar y cyfan, yn deall beth yw asesiadau risg a sut i’w cyflawni. Mae hyn yn awgrymu bod angen i’r llwyfannau hyn – a’r diwydiant ehangach – wella eu parodrwydd ar gyfer rheoleiddio, a hynny’n gyflym, gan fod disgwyl i asesiadau risg ddod yn orfodol ar gyfer pob gwasanaeth a reoleiddir o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

### Mae cydweithio rhyngwladol yn rhan ganolog o’n dull gweithredu

4.41 Mae cydweithio'n rhyngwladol ynghylch materion byd-eang yn rhan ganolog o uchelgeisiau Ofcom yn y dyfodol o dan y Drefn VSP. Rydym yn cydnabod gwerth cydweithio â rheoleiddwyr eraill i dynnu sylw at arferion gorau, adnabod risgiau cyffredin, a helpu llwyfannau i ddatblygu eu dull o gydymffurfio â threfniadau rheoleiddio gwahanol.

4.42 Ers i ni ddechrau rheoleiddio VSP, rydym wedi mynychu cyfarfodydd rheolaidd â’n cymheiriaid yn Ffrainc, yr Almaen a Chyprus i rannu arferion gorau sy’n ymwneud â’n dulliau rheoleiddio ar gyfer cadarnhau oedran. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i weithio ar ein dealltwriaeth gyffredin o asesu cymesuredd, meithrin ein dealltwriaeth o agweddau defnyddwyr at dechnolegau sicrhau oedran, a chreu consensws yn rhyngwladol.

4.43 Un enghraifft ymarferol lle y gall ein gwaith rhyngwladol feithrin newid cadarnhaol yw cadarnhau oedran. Mae rhai VSP i oedolion sydd wedi'u lleoli yn y DU yn poeni y byddent yn colli cwsmeriaid i lwyfannau y tu allan i awdurdodaeth y DU pe baent yn rhoi dulliau

cadarnhau oedran ar waith. O ganlyniad i hynny, rydym yn ceisio mynd ati'n rhagweithiol i godi'r safonau cadarnhau oedran sy'n berthnasol i'r ystod lawn o VSP i oedolion y mae defnyddwyr yn y DU yn eu defnyddio, drwy gydweithio ag Awdurdodau Rheoleiddio Cenedlaethol eraill.[24] Bydd cydweithio a rhannu gwybodaeth yn rhyngwladol yn flaenoriaeth ganolog dros y flwyddyn nesaf wrth i ni geisio cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer Blwyddyn 2.

### Gall digwyddiadau arwyddocaol ein haddysgu am y systemau a'r prosesau y mae llwyfannau wedi'u rhoi ar waith

4.44 Yn ein rôl fel rheoleiddiwr VSP, nid ein lle ni yw penderfynu a ddylid caniatáu neu beidio â chaniatáu darn penodol o gynnwys neu a yw'n cydymffurfio â thelerau ac amodau llwyfan. Yn hytrach, ein rôl ni yw sicrhau bod llwyfannau'n rhoi mesurau effeithiol ar waith i ddiogelu defnyddwyr rhag cynnwys niweidiol. Yn unol â hynny, mae'r ffordd y mae llwyfannau'n ymateb i ddigwyddiadau arwyddocaol, fel y ffaith bod deunydd ffilm o'r achos o saethu yn Buffalo, Efrog Newydd, ym mis Mai 2022 wedi lledaenu'n gyflym ar-lein, yn gallu helpu Ofcom i ddeall cryfder systemau a phrosesau llwyfan. Mae ein hadroddiad ar Ymosodiad Buffalo: Heriau a chyfleoedd o ran diogelwch ar-lein, a gyhoeddwyd ar 12 Hydref 2022, yn cyfeirio at ein canfyddiadau mewn perthynas â thri VSP hysbysedig yn yr adroddiad hwn.

4.45 Rydym am weld tystiolaeth o weithredu effeithiol a chyson i ddelio â chynnwys a chyfrifon sy'n torri'r rheolau. Mae'r camau a gymerir gan lwyfannau yn helpu Ofcom i ddeall sut mae eu systemau canfod mewnol yn gweithio a sut y caiff telerau ac amodau eu gorfodi. Bu'n ddefnyddiol i ni weld yn ymarferol sut mae'r digwyddiadau uchel eu proffil hyn yn tynnu sylw at y cyfaddawdu y gall llwyfannau ei wynebu wrth benderfynu sut i daro cydbwysedd rhwng cadw defnyddwyr yn ddiogel rhag niwed a galluogi cyfleoedd i gyfnewid syniadau a safbwyntiau yn agored ac yn onest.

[24] 'Awdurdodau Rheoleiddio Cenedlaethol' yw'r term y mae Ofcom yn ei ddefnyddio i gyfeirio at awdurdodau mewn awdurdodaethau eraill a sefydliadau rhyngwladol sy'n rheoleiddio'r un sectorau ag a reoleiddir gennym ni.

# 5. Ein blaenoriaethau strategol ym Mlwyddyn 2

## Mae ein blaenoriaethau ar gyfer Blwyddyn 2 yn adeiladu ar ein canfyddiadau o Flwyddyn 1

5.1 Ym Mlwyddyn 1, gwnaethom ymgysylltu â llwyfannau ynghylch y mesurau y maent yn eu defnyddio i fynd i'r afael â'r mathau mwyaf niweidiol o gynnwys fideo – sef CSAM, cynnwys casineb a therfysgaeth, a chynnwys sy'n debygol o niweidio pobl ifanc o dan 18 oed. Fel y nodir uchod, daethom o hyd i rai materion trawsbynciol.

5.2 Mae gan bob llwyfan delerau ac amodau digonol sy'n gwahardd deunyddiau a fyddai o fewn cwmpas y gofynion deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae lle i wella o hyd, gan gynnwys o ran y ffordd y caiff y telerau ac amodau hyn eu diweddaru. Ar ben hynny, ni wnaeth yr un o'r llwyfannau ddarparu digon o wybodaeth i ni asesu i ba raddau y caiff eu polisïau defnyddwyr eu rhoi ar waith a'u gorfodi yn effeithiol a/neu'n gyson.

5.3 Hefyd, mae gan lwyfannau amrywiaeth o systemau i ganfod cynnwys fideo niweidiol a'i atal rhag cael ei ledaenu, gan gynnwys cymysgedd o gymedroli cynnwys rhagweithiol ac adweithiol. Fodd bynnag, ni fu modd i ni benderfynu a ydynt yn asesu effeithiolrwydd y systemau hyn yn fewnol, na sut.

5.4 Felly, byddwn yn edrych yn ehangach ar y materion trawsbynciol hyn ym Mlwyddyn 2 ac yn canolbwyntio ar **yr hyn y mae VSP yn ei wneud i bennu, gorfodi a phrofi eu dull gweithredu ar gyfer diogelwch defnyddwyr**. Byddwn hefyd yn dyfnhau ein gwybodaeth dechnegol am systemau a thechnolegau llwyfannau, gan nodi a rhannu arferion da lle bo modd.

5.5 Wrth wneud hynny, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y mathau mwyaf niweidiol o gynnwys, gan gynnwys CSAM, cynnwys casineb a therfysgaeth, a chynnwys fideo a all fod yn niweidiol i bobl ifanc o dan 18 oed.

## Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod

5.6 Rydym wedi nodi pedwar maes ffocws blaenoriaethol ar gyfer Blwyddyn 2 y broses o reoleiddio VSP. Ein nod cyffredinol ym mhob un o'r meysydd blaenoriaeth hyn yw sicrhau bod VSP yn rhoi mesurau priodol ar waith i ddiogelu eu defnyddwyr rhag cynnwys niweidiol.

5.7 Ein blaenoriaethau strategol ar gyfer Blwyddyn 2 y Drefn VSP yw y bydd Ofcom yn ceisio:

- **sicrhau bod VSP wedi rhoi prosesau digonol ar waith ar gyfer pennu ac adolygu polisïau defnyddwyr cynhwysfawr** (a elwir fel arfer yn Ganllawiau Cymunedol) sy'n cwmpasu pob niwed perthnasol,
- **cadarnhau bod VSP yn defnyddio ac yn gorfodi eu Canllawiau Cymunedol yn gyson ac yn effeithiol** er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â chynnwys niweidiol yn ymarferol,

- **adolygu'r adnoddau y mae VSP yn eu darparu er mwyn galluogi defnyddwyr i reoli eu profiad** a hyrwyddo mwy o ymgysylltu â'r mesurau hyn,
- **bwrw ymlaen â'r gwaith o roi trefniadau cadarn ar waith i sicrhau oedran** er mwyn diogelu plant rhag y cynnwys ar-lein mwyaf niweidiol (gan gynnwys pornograffi).

5.8 Dyma'r meysydd y byddwn yn rhoi'r rhan fwyaf o'n sylw iddynt, ond gwyddom y gallai materion eraill godi y bydd angen eu blaenoriaethu oherwydd difrifoldeb y niwed neu'r risg i ddefnyddwyr. Byddwn yn parhau i ddysgu ac addasu wrth i ni fynd yn ein blaenau, fel y gwnaethom ym Mlwyddyn 1. Trafodwn bob un yn ei dro isod.

## Pennu Canllawiau Cymunedol sy'n ymdrin â phob niwed perthnasol

### Byddwn yn ceisio sicrhau bod VSP wedi rhoi prosesau digonol ar waith ar gyfer pennu ac adolygu Canllawiau Cymunedol cynhwysfawr sy'n ymdrin â phob niwed perthnasol

5.9 Yn ein Canllawiau i VSP a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, gwnaethom ddweud bod cael telerau ac amodau ar gyfer deunydd niweidiol a'u rhoi ar waith yn effeithiol yn ganolog i gydymffurfio â'r Drefn VSP. Rydym wedi darganfod bod gan yr holl VSP hysbysedig delerau ac amodau sy'n gwahardd rhannu mathau o ddeunydd niweidiol perthnasol (gan gynnwys CSAM a chynnwys casineb a therfysgaeth) ar y cyfan a'u bod wedi pennu rheolau o ran pa gynnwys sy'n briodol ar gyfer defnyddwyr o dan 18 oed. Fodd bynnag, rydym wedi gweld bod rhywfaint o le i wella o hyd.

5.10 Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod telerau ac amodau VSP yn cwmpasu'r ystod lawn o ddeunydd niweidiol a ddisgrifir yn y Drefn VSP. Rydym hefyd am weld VSP yn adolygu eu telerau ac amodau yn barhaus er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen ac y cânt eu cyfleu'n effeithiol i ddefnyddwyr. Bydd sicrhau bod gan VSP brosesau effeithiol ar gyfer diweddaru eu telerau ac amodau yn sylfaen graidd ar gyfer yr holl fesurau eraill y mae VSP wedi'u rhoi ar waith.

5.11 Erbyn i Ofcom gyhoeddi ei adroddiad Blwyddyn 2, rydym yn disgwyl y bydd gan bob VSP delerau ac amodau sy'n cwmpasu'r ystod lawn o ddeunydd niweidiol o dan y Drefn VSP ac yn galluogi llwyfannau i gymryd camau effeithiol i dynnu neu gyfyngu ar gynnwys fel y bo'n briodol. Rydym hefyd yn awyddus i weld sut mae VSP yn cydbwyso diogelwch defnyddwyr ag ystyriaethau eraill lle mae hawliau a buddiannau croes yn y fantol, er ein bod yn cydnabod nad oes gan VSP unrhyw rwymedigaethau statudol o ran rhyddid mynegiant.

5.12 Rydym hefyd yn disgwyl y byddwn wedi meithrin dealltwriaeth fanwl o arferion mewnol VSP ar gyfer adolygu a diweddaru telerau ac amodau a pholisïau ar sancsiynau i ddefnyddwyr, gan bwyso am brosesau mewnol gwell lle bo angen. Rydym am i lwyfannau ddangos y camau y maent yn eu cymryd i asesu effeithiolrwydd y prosesau hyn.

## Defnyddio a gorfodi Canllawiau Cymunedol er mwyn mynd i’r afael â deunydd niweidiol

### Byddwn yn ceisio cadarnhau bod VSP yn defnyddio ac yn gorfodi eu Canllawiau Cymunedol yn gyson ac yn effeithiol er mwyn sicrhau yr eir i’r afael â chynnwys niweidiol yn ymarferol

5.13 Mae’r Drefn VSP yn mynnu, pan roddir mesur ar waith, y gwneir hynny mewn ffordd sy’n cyflawni’r diben y cafodd ei ddylunio ar ei gyfer. Gwnaethom ddweud yn ein canllawiau bod rhaid i delerau ac amodau (y cyfeirir atynt fel arfer fel Canllawiau Cymunedol) sy’n gwahardd cynnwys anghyfreithlon gael eu gorfodi’n effeithiol.  Weithiau gall gorfodi effeithiol gynnwys prosesau neu dechnolegau sydd y tu hwnt i’r mesurau a restrir mewn deddfwriaeth VSP (yn Atodlen 15A).

5.14 Mae Ofcom wedi cael amrywiaeth o wybodaeth am brosesau cymedroli, hyfforddi a sancsiynau llwyfannau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd digon o wybodaeth i ddangos i ba raddau y mae polisïau defnyddwyr yn cael eu gorfodi’n effeithiol ac yn gyson drwy brosesau cymedroli cynnwys (gweler paragraffau **4.8 - 4.15**). Yn y cyd-destun hwn, mae ‘cymedroli cynnwys’ yn cyfeirio at y broses a ddefnyddir i adolygu fideo ar ôl iddo gael ei ganfod gan lwyfan (e.e. drwy adroddiad gan ddefnyddiwr) a’r hyn a fydd yn digwydd nesaf (e.e. o wneud dim i’w dynnu i lawr). Weithiau, gall yr ymadrodd ‘cymedroli cynnwys’ gyfeirio at fesurau rhagweithiol a ddefnyddir gan lwyfannau i fonitro cynnwys ar-lein, gan gynnwys drwy dechnolegau sganio. Nid yw cymedroli rhagweithiol o’r fath yn ofynnol o dan y Drefn VSP ac felly nid yw’n rhan o’r gwaith hwn ond, serch hynny, mae o ddiddordeb i Ofcom.

5.15 Felly, mae Ofcom am edrych yn fanylach ar y ffordd y mae prosesau adolygu a chymedroli cynnwys trawsbynciol yn gweithio i fynd i’r afael â chynnwys niweidiol. Er enghraifft, hoffem edrych ar y ffordd y caiff cymedrolwyr eu hyfforddi, y ffordd y mae VSP yn mesur ac yn gwella cywirdeb, a'r ffordd y caiff cynnwys problemus ei adnabod a’i flaenoriaethu o’r adroddiadau a ddaw i law. Rydym am wneud yn siŵr bod prosesau adolygu a chymedroli cynnwys VSP yn mynd i’r afael â chynnwys niweidiol ac yn arwain at ddull clir a chyson o orfodi Canllawiau Cymunedol y llwyfannau.

5.16 Erbyn diwedd Blwyddyn 2, rydym am fod yn hyderus bod VSP yn adnabod cynnwys niweidiol ac yn ei dynnu i lawr neu’n cyfyngu arno’n gyflym – ar ôl i rywun roi gwybod amdano – er mwyn sicrhau y caiff defnyddwyr eu diogelu’n well rhag dod ar draws cynnwys o’r fath. Rydym hefyd am barhau i feithrin ein dealltwriaeth o’r graddau y gellir gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau hyn, gan rannu ein canfyddiadau lle bo modd.

## Grymuso defnyddwyr i reoli eu profiad o ddefnyddio VSP

### Byddwn yn adolygu’r adnoddau y mae VSP yn eu darparu er mwyn galluogi defnyddwyr i reoli eu profiad a hyrwyddo mwy o ymgysylltu â’r mesurau hyn

5.17 Un o'n blaenoriaethau ar gyfer Blwyddyn 1 oedd sicrhau bod prosesau fflagio ac adrodd VSP yn effeithiol, a bod VSP yn annog defnyddwyr i ymgysylltu'n fwy â nhw. Gwelsom fod mwy o waith i’w wneud i ddeall pa mor effeithiol yw’r mesurau hyn ar wahanol lwyfannau.

Mae ein gwaith ymchwil hefyd yn awgrymu bod lefelau ymgysylltu â'r adnoddau hyn yn isel – ac rydym yn disgwyl i lwyfannau addysgu defnyddwyr am y mesurau sydd ar gael fel rhan o'r gwaith o hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.[25]

5.18 Rydym yn ehangu ein ffocws ym Mlwyddyn 2 er mwyn dysgu mwy am argaeledd ac effeithiolrwydd ystod ehangach o adnoddau grymuso defnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys adrodd a fflagio, yn ogystal â thagio, categoreiddio, rheolaethau rhieni, cwynion ac apeliadau. Rydym yn awyddus i ddeall sut mae'r adnoddau hyn yn gweithio i ddiogelu defnyddwyr a helpu i gynnal sgyrsiau agored a gonest lle bo hynny'n briodol.

5.19 Dylai rhieni a gofalwyr deimlo eu bod yn cael eu grymuso i wybod sut i reoli eu profiadau ar-lein neu brofiadau ar-lein eu plant er mwyn iddynt deimlo'n fwy diogel ar-lein. Mae ein gwaith ymchwil i Ganllawiau i Rieni ar VSP, a gyhoeddwyd heddiw, yn dangos yr hoffai rhieni gael eu gwneud yn fwy ymwybodol o'r wybodaeth a'r adnoddau diogelwch a ddarperir gan VSP. Bydd Ofcom yn ystyried sut y gallwn hybu ymwybyddiaeth o fesurau o'r fath a lefelau ymgysylltu â nhw. Mae gennym hefyd ddiddordeb arbennig yn y ffordd y gall tagio weithio i ddiogelu plant rhag deunydd dan gyfyngiadau.[26]

5.20 Ar ddiwedd Blwyddyn 2, rydym yn disgwyl y bydd gennym sylfaen dystiolaeth fanylach ynghylch sut mae adnoddau grymuso defnyddwyr yn gweithio a beth sy'n gweithio orau – gan rannu'r hyn a ddysgir â VSP a'r cyhoedd lle bo modd. Dylai hyn helpu VSP i ddatblygu adnoddau grymuso mwy effeithiol ac atyniadol fyth ar gyfer defnyddwyr a rhieni. Yn y pen draw, os bydd defnyddwyr VSP, rhieni a gofalwyr yn gwybod sut i reoli eu profiad ar-lein, byddant yn teimlo'n fwy diogel ac yn fwy hyderus wrth ddefnyddio llwyfannau.

## Diogelu plant rhag y deunydd fideo mwyaf niweidiol

### Byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith o roi trefniadau cadarn ar waith i sicrhau oedran er mwyn diogelu plant rhag y cynnwys ar-lein mwyaf niweidiol (gan gynnwys pornograffi)

5.21 Fel y nodwyd gennym yn ein Canllawiau i VSP, rydym yn credu y dylai VSP i oedolion flaenoriaethu dulliau cadarn ar gyfer cadarnhau oedran er mwyn sicrhau bod gwylwyr yn 18 oed neu'n hŷn. Gwnaethom osod rhai sylfeini pwysig ar gyfer cadarnhau oedran ar VSP i oedolion yn ystod Blwyddyn 1, gan ymgysylltu â rheoleiddwyr domestig a rhyngwladol eraill a datblygu ein sylfaen dystiolaeth ynghylch pa fesurau sydd ar waith ar VSP. Fel y nodwyd uchod, mae gennym bryderon nad oes gan rai o'r VSP i oedolion fesurau cadarn ar gyfer cadarnhau oedran.

5.22 Bydd y ffocws hwn yn parhau yn ystod Blwyddyn 2. Byddwn yn parhau â'n rhaglen ymchwil ac ymgysylltu, gan lunio'r darlun o ba atebion sy'n gweithio ac y byddai'n gymesur disgwyl i wahanol VSP eu rhoi ar waith. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â VSP i oedolion – gan

---

[25] Dim ond un o bob chwech o bobl ifanc sy'n tynnu sylw at gynnwys niweidiol ar-lein (ofcom.org.uk)

[26] Mae hyn yn berthnasol i'r mesur yn Atodlen 15A y dylid cynnwys telerau ac amodau i'r perwyl os bydd rhywun yn lanlwytho fideo sy'n cynnwys unrhyw ddeunydd dan gyfyngiadau i'r gwasanaeth, bydd yn rhaid i'r unigolyn hwnnw ddwyn sylw'r sawl sy'n darparu'r gwasanaeth ato.

gynnwys OnlyFans ar ei dechnoleg cadarnhau oedran – a rhannu'r hyn a ddysgir â'r diwydiant ehangach lle bo modd.

5.23 Gan mai dim ond i VSP a sefydlwyd yn y DU y mae'r Drefn VSP yn berthnasol, mae llawer o VSP i oedolion y tu hwnt i awdurdodaeth Ofcom. Felly, er mwyn diogelu plant rhag deunydd i oedolion, mae angen ymateb byd-eang yn y pen draw. Bydd Ofcom yn parhau i weithio'n agos gyda rheoleiddwyr rhyngwladol er mwyn i bawb ddeall dulliau ei gilydd o asesu cymesuredd ac effeithiolrwydd technolegau sicrhau oedran a cheisio gwella diogelwch ar gyfer defnyddwyr yn y DU ar draws yr ystod lawn o VSP i oedolion, ni waeth ble y cafodd y VSP hynny eu sefydlu.

5.24 Mae Ofcom yn parhau i weithio'n agos gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i rannu'r hyn a ddysgir, sicrhau eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau, a gwneud yn siŵr bod ein priod ddulliau gweithredu yn gydlynol ac yn gyson (lle bo hynny'n berthnasol). Rydym wedi cyhoeddi gwaith ymchwil ar y cyd ar fesurau sicrhau oedran ac rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad ar y cyd ar ein dull lefel uchel o gydweithio yn ddiweddarach eleni.

5.25 Erbyn diwedd Blwyddyn 2, rydym am i VSP hysbysedig i oedolion fod wedi llunio map clir ar gyfer rhoi mesurau cadarn ar gyfer sicrhau oedran ar waith – a rhoi'r mesurau hynny ar waith pan fydd hynny'n gymesur. Yn y tymor hwy, rydym am sicrhau na all plant gael mynediad at VSP i oedolion yn rhwydd, gan eu diogelu rhag cynnwys a allai achosi niwed iddynt. Mae'n hanfodol ein bod yn gosod y sail ar gyfer hyn cyn y drefn Diogelwch Ar-lein, lle na fydd awdurdodaeth Ofcom yn gyfyngedig yn yr un ffordd a bydd angen llawer mwy o wasanaethau i ddiogelu plant rhag cynnwys i oedolion.

## Edrych ymlaen at Ddiogelwch Ar-lein

5.26 Un o nodau strategol Ofcom ar gyfer y Drefn VSP yw paratoi'r diwydiant, a ninnau, ar gyfer y drefn Diogelwch Ar-lein sydd ar ddod. Rydym wedi gwneud cynnydd ar hyn ym Mlwyddyn 1, gan gynnwys drwy recriwtio a meithrin sgiliau ac arbenigedd a fydd yn hanfodol er mwyn rhoi'r drefn Diogelwch Ar-lein ar waith yn llwyddiannus.

5.27 Er bod pob math o niwed yn wahanol, byddwn yn disgwyl i lwyfannau fabwysiadu dulliau cymesur ac wedi'u teilwra o ddiogelu defnyddwyr, gan sicrhau bod eu mesurau trawsbynciol yn gweithio'n dda. Mae rhai mathau o niwed yn galw am weithredu ar y cyd ar draws y sector cyfan – fel arall bydd niwed a drwgweithredwyr yn rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau sydd â mesurau diogelu mwy effeithiol ac yn defnyddio'r rhai sydd â systemau gwannach yn lle hynny. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r broses o roi dulliau cadarn o gadarnhau oedran ar waith ar lwyfannau i oedolion – dim ond os cânt eu mabwysiadu drwy'r diwydiant cyfan y bydd dulliau cadarnhau oedran yn effeithiol. Byddwn am ymdrin â Diogelwch Ar-lein mewn modd cynhwysfawr, gan gynnwys gweithio gyda rheoleiddwyr eraill yn y DU a thramor lle bo hynny'n briodol.

5.28 Mae cynnal asesiadau risg ar gynnyrch, cyn defnyddio mesurau newydd ac wrth adolygu effeithiolrwydd y mesurau presennol, yn hanfodol er mwyn i lwyfannau reoli risg yn effeithiol. Cyn i'r Bil Diogelwch Ar-lein gael ei gyflwyno, rydym yn annog gwasanaethau i

adolygu eu prosesau asesu risg, ystyried pa mor effeithiol yw'r prosesau hynny, ac ystyried cyfleoedd i wella, yn enwedig mewn perthynas â'r mathau â blaenoriaeth o niwed anghyfreithlon yn y fersiwn bresennol o'r Bil. Fel y nodwyd yn ein Map Diogelwch Ar-lein ym mis Gorffennaf 2022, byddwn yn disgwyl i bob cwmni ystyried sut mae'n blaenoriaethu mesurau diogelu defnyddwyr ac yn ymgorffori ystyriaethau diogelwch wrth wneud penderfyniadau dylunio ynghylch cynnyrch a pheirianneg, ar ôl i'r drefn diogelwch ar-lein ddod i rym. Rydym yn disgwyl i gwmnïau roi prosesau llywodraethu mewnol cadarn ar waith er mwyn trafod y materion hyn, gan gynnwys gyda llunwyr penderfyniadau ar lefelau uwch, lle bo hynny'n briodol.

5.29 Mae ein canfyddiadau ynghylch diffyg parodrwydd rhai VSP ar gyfer rheoleiddio (gweler paragraffau **4.38-4.40**) yn dangos ei bod yn debygol y bydd gan lawer o lwyfannau fwy o waith i'w wneud cyn i'r Drefn Diogelwch Ar-lein ddechrau. Bydd VSP hysbysedig mewn sefyllfa gref i adeiladu ar eu profiadau presennol o ymgysylltu ag Ofcom, ond rydym yn awyddus i'r gwersi hyn gael eu rhannu â'r set ehangach o lwyfannau sy'n debygol o fod o fewn cwmpas y drefn yn y dyfodol.

5.30 Rydym yn rhagweld y byddwn yn cyflwyno nifer o geisiadau ffurfiol am wybodaeth pan fydd Senedd y DU yn pasio'r Bil Diogelwch Ar-lein. Yn yr un modd â'r drefn VSP, mae'n debygol y bydd llwyfannau perthnasol yn cael cyfle i wneud sylwadau ar y ceisiadau hyn am wybodaeth cyn iddynt gael eu cyflwyno'n ffurfiol. Er ein bod yn croesawu newidiadau a awgrymir sy'n helpu i sicrhau y byddwn yn cael y wybodaeth fwyaf perthnasol, byddwn yn disgwyl i wasanaethau ymgysylltu'n adeiladol ac yn brydlon drwy gydol y broses hon. Mae tryloywder, sydd wrth wraidd y broses o reoleiddio VSP a Diogelwch Ar-lein, yn dibynnu ar ein gallu i gael gafael ar wybodaeth ystyrlon gan lwyfannau am y gwahanol ffyrdd y maent yn diogelu eu defnyddwyr rhag niwed, gan dynnu sylw at feysydd lle y maent yn methu â gwneud hynny'n effeithiol.